

DAVIES, EDWARD ('Iolo Trefaldwyn'; 1819 - 1887), eisteddfodwr a bardd

Enw: Edward Davies
Ffugenw: Iolo Trefaldwyn
Dyddiad geni: 1819
Dyddiad marw: 1887
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: eisteddfodwr a bardd
Maes gweithgaredd: Eisteddfod; Barddoniaeth
Awdur: Enid Pierce Roberts

Ganwyd ym Moel-y-frochas, yn ymyl Llanfyllin, Sir Drefaldwyn. Ei rieni oedd yr aelodau cyntaf ymysg y Methodistiaid Calfaidd yn Rhos-y-brithdir. Cafodd ychydig addysg yn ysgol [Morris Davies](#), Llanfyllin, ond gorfu iddo ddychwelyd adref i weithio ar y tir. Yn fuan gadawodd y fferm a mynd i weithio i chwarel Llangynog, ac oddi yno i waith plwm Rhyd-y-mwyn. Bu am ysbaid yn Lerpwl, yn gwerthu glo, eithr nid oedd dim llwyddiant ar ei fasnach. Wedi hyn ymsefydlodd yn Wrecsam, gan deithio'r wlad i gasglu archebau dros gyhoeddwr llyfrau o'r Alban. Dilynai'r eisteddfod yn ffyddlon. Cystadlai'n barhaus, yn rhy aml i gynhyrchu dim o wir werth. Enillodd gadair eisteddfod y Gordofigion, Lerpwl, yn 1870, am ei bryddest, 'Goleuni.' Gelwid arno'n aml i feirniadu llên ac adrodd a chanu penillion mewn eisteddfodau lleol a chyfarfodydd cystadleuol. Ychydig cyn ei farw cyhoeddodd *Caneuon Iolo Trefaldwyn*. Yr oedd yn englynwr medrus ac yn un o'r rhai gorau am lunio beddargraff. Bu'n godwr canu yng nghapel Seion, Wrecsam, am 21 mlynedd. Bu farw 4 Ionawr 1887, a chladdwyd ef ym mynwent newydd Wrecsam.

Awdur

Dr Enid Pierce Roberts

Ffynonellau

R. Williams, *Montgomeryshire Worthies* (1894), 36

Cymru (O.M.E.), iii. 269

Bye-Gones, relating to Wales and the Border Counties, 1887

Darllen Pellach

Erthygl Wicipedia: [Edward Davies](#)

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: [Q19635477](https://www.wikidata.org/wiki/Q19635477)

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/> 

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

